



**Caring Together  
Western Bay**  
*Health and Social Care Programme*  
**Gofalu Gyda'n Gilydd  
Bae'r Gorllewin**  
*Rhaglen Gofal Iechyd a Chymdeithasol*

## **Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Bae'r Gorllewin**

**24 Ionawr 2017**

**10.00am - 12.00pm**

**Ystafell Bwyllgor 1 - 3, Swyddfeydd Dinesig Pen-y-bont ar Ogwr, Pen-y-bont ar  
Ogwr**

### **Cofnodion**

#### **Cynrychiolwyr**

| <b>Enw</b>                                | <b>Sefydliad</b>                                    | <b>Blaenlythrennau</b> |
|---|---|------------------------|
| Y Cynghorydd Rob Stewart<br>(Cadeirydd)   | Dinas a Sir Abertawe                                | RS                     |
| Yr Athro Andrew Davies (Is-<br>gadeirydd) | BI PABM   | AD                     |
| Joanne Abbott-Davies                      | BI PABM   | JAD                    |
| Y Cynghorydd Huw David                    | CBS Pen-y-bont ar Ogwr                              | HD                     |
| Darren Mepham                             | CBS Pen-y-bont ar Ogwr                              | DM                     |
| Y Cynghorydd Hayley Townsend              | CBS Pen-y-bont ar Ogwr                              | HT                     |
| Y Cynghorydd Phil White                   | CBS Pen-y-bont ar Ogwr                              | PW                     |
| Susan Cooper                              | CBS Pen-y-bont ar Ogwr                              | SC                     |
| Steven Phillips                           | CBS Castell-nedd Port Talbot                        | SP                     |
| Y Cynghorydd John Rogers                  | CBS Castell-nedd Port Talbot                        | JR                     |
| Andrew Jarrett                            | CBS Castell-nedd Port Talbot                        | AJ                     |
| Phil Roberts                              | Dinas a Sir Abertawe                                | PhR                    |
| Y Cynghorydd Christine Richards           | Dinas a Sir Abertawe                                | CR                     |
| Y Cynghorydd Jane Harris                  | Dinas a Sir Abertawe                                | JH                     |
| Dave Howes                                | Dinas a Sir Abertawe                                | DH                     |
| Amanda Carr                               | CGG Abertawe/Trydydd Sector                         | AC                     |
| Linda Jagers                              | Cynrychiolydd Gofalwyr                              | LJ                     |
| Emma Tweed                                | Gofal a Thrwsio/Y Trydydd Sector                    | ET                     |
| Rosita Wilkins                            | Cynrychiolydd Defnyddwyr<br>Gwasanaeth/ Dinasyddion | RW                     |
| Carwyn Tywyn                              | Mencap Cymru/Y Trydydd Sector                       | CT                     |
| Debbie Smith                              | Dinas a Sir Abertawe<br>(ymgyngorydd cyfreithiol)   | DS                     |
| Sara Harvey                               | Bae'r Gorllewin                                     | SH                     |
| Louise Fraser-Cole                        | Bae'r Gorllewin                                     | LFC                    |
| <b>Yn bresennol</b>                       |   |                        |
| Sara Hayes (Eitem 7 ar yr Agenda)         | BI PABM   | SHay                   |
| Tracy Bell (Eitem 8 ar yr Agenda)         | CBS Pen-y-bont ar Ogwr                              | TB                     |
| Sarah Caulkin (Eitem 8 ar yr<br>Agenda)   | Dinas a Sir Abertawe                                | SCa                    |
| Matthew John (Eitem 8 ar yr               | BI PABM   | MJ                     |

|  |                        |    |
|--|------------------------|----|
| Agenda)                                |                        |    |
| Martin Morgans (Eitem 8 ar yr Agenda)  | CBS Pen-y-bont ar Ogwr | MM |
| Stephen Magowan (Eitem 8 ar yr Agenda) | BI PABM                | SM |
| Vicky Warner (Eitem 8 ar yr Agenda)    | BI PABM                | VW |

## Ymddiheuriadau

| Enw                         | Sefydliad                    | Blaenlythrennau |
|-----------------------------|------------------------------|-----------------|
| Paul Roberts                | BI PABM                      | PaR             |
| Siân Harrop-Griffiths       | BI PABM                      | SHG             |
| Maggie Berry                | BI PABM                      | MB              |
| Y Cynghorydd Ali Thomas     | CBS Castell-nedd Port Talbot | AT              |
| Y Cynghorydd Peter Richards | CBS Castell-nedd Port Talbot | PR              |
| Nick Jarman                 | CBS Castell-nedd Port Talbot | NJ              |
| Y Cynghorydd Mark Child     | Dinas a Sir Abertawe         | MC              |
| Melanie Minty               | Fforwm Gofal Cymru           | MM              |
| Gaynor Richards             | CGG CNPT/Y Trydydd Sector    | GR              |
| Sharon Williams             | Fforwm Gofal Cymru           | SW              |

| Cyf   | Eitem   | Cam Gweithredu |
|-------|---|----------------|
| 1     | <b>Croeso, Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau</b><br>Croesawodd RS bawb i'r cyfarfod.<br>Gwnaed cyflwyniadau.<br>Rhoddwyd ymddiheuriadau am absenoldeb fel y nodwyd uchod   |                |
| 2     | <b>Datganiadau o fuddiant</b><br>Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau  |                |
| 3     | <b>Y diweddaraf am y Bwrdd Comisiynu Plant a Phobl Ifanc a ffrydiau gwaith allweddol y Gwasanaethau Plant, gan gynnwys eiriolaeth</b><br>Rhoddodd AJ y diweddaraf i'r bwrdd am y Gwasanaethau Plant ac eiriolaeth yn BGN.   |                |
| 3.1   | <b>Yr Adroddiad Diweddaraf am y Gwasanaethau Plant</b><br>Mae penaethiaid y Grŵp Gwasanaethau Plant wedi cytuno ar y blaenoriaethau rhanbarthol canlynol: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Adolygiad o Blant ag Anghenion Cymhleth mewn Lleoliadau Preswyl</li> <li>• Eiriolaeth</li> <li>• Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS)</li> </ul> |                |
| 3.1.1 | Cymeradwyodd y Grŵp Arweinyddiaeth yr achos busnes a gyflwynwyd ym mis Rhagfyr 2015 a oedd yn amlinellu gwaith i'w barhau am flwyddyn arall, 2016 – 2017, ar gyfer cyfnod y prosiect Contractio a Chaffael.   |                |

Cymeradwywyd grant y Gronfa Gofal Integredig (CGI) a chytunwyd y byddai'r broses asesu sy'n seiliedig ar ganlyniadau yn cael ei phrofi yn erbyn plant ag anghenion cymhleth ac y byddai dau aelod ychwanegol o staff yn gwneud y gwaith hwn.

Nododd partneriaid yr ALI ddau achos yr un a fyddai'n cael eu hadolygu ar sail prawf er mwyn cadarnhau a ellid defnyddio'r broses a'r gwaith papur sy'n cael eu defnyddio yn y gwasanaeth Gofal Oedolion a Reolir neu a oes angen addasiadau. Cynhelir adolygiadau ym mis Ionawr 2017.

Cost gyfartalog y ddarpariaeth ar gyfer pob plentyn ag anghenion cymhleth yw rhwng £2,500 a £5000.

Os bydd y system hon yn gweithio, caiff ei chyflwyno ymhellach i blant ag anghenion cymhleth ar draws Bae'r Gorllewin.

3.1.2 Datblygwyd ymagwedd genedlaethol at eiriolaeth statudol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, plant mewn angen a phlant penodol.

Mae aelodau'r Grŵp Strategol ar gyfer Eiriolaeth yn cynnwys aelodau o Gyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (ADSS), CLILC, Cadeirydd y Grŵp Arbenigol Gweinidogol ar Eiriolaeth (MEGA), y Comisiynydd Plant a LIC. Sefydlwyd Grŵp Tasg a Gorffen ychwanegol ar ran ADSS sy'n cynnwys cynrychiolwyr o CLILC, LIC, AGGCC, pob un o grwpiau cydweithrediadol y Gwasanaethau Cymdeithasol a nifer o ddarparwyr eiriolaeth yng Nghymru.

Comisiynwyd Cordis Bright i ddatblygu dull amrediad a lefel i gael syniad o ofynion gallu'r gwasanaeth a goblygiadau cyllidebol. Defnyddiwyd dadansoddiad i amcangyfrif nifer y plant a'r bobl ifanc a fyddai'n gymwys am wasanaethau eiriolaeth, faint o ddarpariaeth gwasanaeth fyddai ei angen a'r costau cefnogi. Caiff yr ystadegau cychwynnol o Cordis Bright eu defnyddio i helpu i gyfeirio strategaethau comisiynu.

Mae Penaethiaid Gwasanaeth yn BGN wedi adolygu'r ddarpariaeth gwasanaeth bresennol sy'n cyflawni dyletswyddau statudol y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.

Mae Penaethiaid Gwasanaeth yn BGN wedi cytuno i fwrw ymlaen â rhoi rhaglen gomisiynu ar gyfer gwasanaeth eiriolaeth ar waith, yn seiliedig ar fabwysiadu'r ymagwedd genedlaethol, y bydd Abertawe'n awdurdod arweiniol ar ei chyfer.

Daeth sesiwn dystiolaeth o ymchwiliad gan LIC a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o Grŵp Gweithredu ADSS i'r casgliad bod ALI wedi cymeradwyo'r ymagwedd genedlaethol yn llawn. Caiff comisiynu rhanbarthol ei roi ar waith yn dilyn cyfnod o brofi.

3.1.3 Mae Penaethiaid Gwasanaeth a BI PABM wrthi'n trafod ymagweddau ar y cyd at les emosiynol plant a phobl ifanc ar draws y rhanbarth.

Y nod yw ymyrryd ar gam cynharach er mwyn osgoi achosion rhag dwysáu i lefel argyfwng a darpariaeth pedair haen.

Mae PABM hefyd yn gweithio gyda BI Cwm Taf i sicrhau bod y ddarpariaeth yn addas at y diben.

### 3.2 **Y diweddaraf gan y Bwrdd Comisiynu Plant a Phobl Ifanc**

3.2.1 Rhoddodd JAD y diweddaraf am waith y Bwrdd Comisiynu PPI i'r bwrdd.

Mae'r Bwrdd Comisiynu'n un o chwe bwrdd a sefydlwyd gan BI PABM. Maent yn ddull i'r BI newid ei flaenoriaethau strategol yn gynlluniau newid gwasanaethau i'w cyflwyno drwy Gynllun Tymor Canolig Integredig y BI ar y cyd â rhanddeiliaid allweddol a rhanddeiliaid.

Mae blaenoriaethau'n cynnwys cyngor, cefnogaeth a hyfforddiant i deuluoedd, yn ogystal ag ymyriad cynharach gan sicrhau ei fod yn addas at y diben.

Mae pryderon ynghylch amserau aros atgyfeirio a'r gobaith yw lleihau amserau aros i 28 niwrnod; er y bydd hyn yn anodd, mae PABM yn teimlo ei fod yn gyflawnadwy.

Bydd PABM mewn gwell sefyllfa i wybod yr hyn y mae ei angen a sut orau i gyflwyno'r canlyniadau sy'n ofynnol mewn tua 6 mis gyda chymorth prosesau sicrwydd mewnol yn ogystal ag amrywiaeth o wasanaethau ar lefel o angen is. Roedd trafodaeth yn cynnwys pryder am ymagwedd system gyfan at CAMHS a'r angen i gael hyder yn yr hyn sy'n cael ei ddatblygu.

3.2.2 Codwyd y broses o drawsnewid i oedolaeth; mae hyn eisoes wedi'i nodi fel pryder, gan fod arferion gwahanol mewn ardaloedd gwahanol. Rhagwelir y bydd proses ranbarthol yn cael ei rhoi ar waith, wrth gynnwys gofynion lleol, ac y bydd y trawsnewid i oedolaeth yn broses hwy. Cafwyd cais i lunio adroddiad am nifer y bobl ifanc sy'n trawsnewid i oedolaeth, i gynnwys y posibilrwydd o ddatblygu ymagwedd ranbarthol at ddelio â risgiau a chaniatáu mynediad i'r system yn gynharach.

3.2.3 Gofynnwyd a ellid cynnwys cyfeiriad at bobl ifanc yn Uned Ddiogel Hillside a charchar y Parc mewn diweddariadau yn y dyfodol.

Gadawodd AJ y cyfarfod

**JAD/Bwrdd PPI**

**I'W GADARNHAU**

## **4 Cofnodion Drafft y Cyfarfod Blaenorol, 23 Tachwedd 2016**

- 4.1 Cytunwyd bod y cofnodion yn gofnod cywir, ac eithrio:  
4.1.1 Roedd enw'r Cynghorydd Harris wedi'i sillafu'n anghywir  
4.1.2 Gofynnwyd i'r bwrdd dderbyn y Cylch Gorchwyl a'r Côt Ymddygiad yn ffurfiol (3.2).

**Diwygio'r sillafiad  
Diwygio'r cofnodion**

## **5 Materion yn codi a chofnod gweithredu**

- 5.1 Mae'r Cynllun Gofal Cynllunio Gofal Rhagweledol wedi'i gymeradwyo gan gyrff partner ac wedi'i ddsbarthu i'w gymeradwyo'n ffurfiol (Cyf 5)  
5.2 Diwygiwyd y Côt Ymddygiad drafft a'i ddsbarthu er mwyn ei lofnodi  
(Cam Gweithredu 3. Cyf 3.4 & 3.4.a)  
5.3 Diweddarau'r Cylch Gorchwyl  
(Cam Gweithredu 5. Cyf 3.5)

**Mewn cyfarfod ac  
mewn cyfarfod  
dilynol i'r rhai nad  
ydynt yn bresennol  
Mawrth 2017**

|      |  |   |
|------|--|---|
| 5.4  | Cyflwyniad WCCIS (System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru) ar yr agenda<br>(Cam Gweithredu 5. Cyf 2.2b)                                       | <b>Wedi'i gwblhau</b>   |
| 5.5  | Templedi adrodd am berfformiad ar gyfer ffrydiau gwaith BGN - enghraifft CS o dempled ar yr agenda<br>(Cam Gweithredu. Cyf 2.2c)             | <b>Gwaith ar dempled adrodd i barhau erbyn y cyfarfod nesaf</b> |
| 5.6  | Diweddariad PPI ar yr agenda<br>(Cam Gweithredu. Cyf 2.2d)   | <b>Wedi'i gwblhau</b>   |
| 5.7  | Adroddiad AP (Asesiad Poblogaeth) a'r camau nesaf ar yr agenda<br>(Cam Gweithredu. Cyf 3.3)  | <b>Wedi'i gwblhau</b>   |
| 5.8  | Adroddiad Adolygu IFSS<br>(Cam Gweithredu. Cyf 6.8)  | <b>Mawrth 2017</b>  |
| 5.9  | Egwyddorion y Fframwaith Atal i'w dychwelyd i sefydliadau partner a'u cymeradwyo gan Gabinetau a Byrddau Iechyd<br>(Cam Gweithredu. Cyf 7.3) | <b>Yn mynd rhagddo erbyn mis Mawrth 2017</b>                    |
| 5.10 | Egwyddorion y Fframwaith Atal - sefydliadau partner i nodi lle mae'r egwyddorion wedi'u gwreiddio<br>(Cam Gweithredu. Cyf 7.3)               | <b>Yn mynd rhagddo erbyn mis Mawrth 2017</b>                    |

## **6 Côt Ymddygiad Drafft**

6.1 Cytunwyd ar y Côt Ymddygiad.

## **7 Asesiad Poblogaeth Rhanbarthol**

Ymunodd Sara Hayes (SHay) â'r cyfarfod

- 7.1 Cydnabuwyd bod hwn yn ddarn mawr o waith a wnaed gan Grŵp Llywio AP ac is-grwpiau.
- 7.2 Dosbarthwyd pecynnau asesiad poblogaeth i'r bwrdd fel enghraifft o'r wybodaeth sydd ar gael ar wefan yr AP a hefyd yr wybodaeth dechnegol ategol sydd ar gael ar gais.
- 7.3 Rhoddodd SHay y diweddaraf i'r bwrdd ar waith a chynnydd y Grŵp Llywio:
  - 7.3.1 Rhaid i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a BI PABM, yn ogystal â phob cyngor unigol, lunio a chymeradwyo adroddiad rhanbarthol. Ar ôl eu cymeradwyo, caiff yr adroddiadau asesu eu cyhoeddi ar wefannau Bae'r Gorllewin, pob ALI a BI PABM. Caiff yr adroddiad ei anfon hefyd i LIC a'i gyhoeddi erbyn 31 Mawrth 2017.
  - 7.3.2 Mae cyfoeth o ddata yn yr adroddiad; nodwyd themâu craidd ac unrhyw fylchau mewn gwybodaeth/data; mae hefyd yn cynnwys penodau cryno lefel uchel
  - 7.3.3 Gwnaed y gwaith i gynnwys twf posib y gwasanaeth a bwriadau'r dyfodol.
  - 7.3.4 Ni chaiff dogfennau technegol eu cyhoeddi ond byddant ar gael ar gais.
  - 7.3.5 Y cam nesaf yw llunio Cynllun Ardal erbyn mis Ebrill 2018 a bydd hefyd yn golygu cynnwys rhanddeiliad yn fwy.
  - 7.3.6 Unwaith i'r AP gael ei gymeradwyo gan y tri ALI a'r BI, bydd

angen cadarnhau trefniadau ar gyfer llunio'r Cynllun Ardal, a fydd yn nodi patrwm gwasanaethau rhanbarthol ar gyfer y rhanbarth yn y dyfodol.

7.4 Mae lefel uchaf yr adroddiad yn gyfres o we-dudalennau a'r nod o gyfleu anghenion pobl am ofal a chefnogaeth ar draws y rhanbarth, amrywiaeth y gwasanaethau sydd ar waith i ddiwallu'r anghenion hynny a'r ffactorau y bydd angen cynllunio ar eu cyfer yn y cyfnod nesaf.

7.5 Dangosodd SH y wefan i'r bwrdd, gan bwysleisio ei bod yn cael ei datblygu o hyd ac felly gall newid nes iddi gael ei chwblhau

7.6 **O ystyried amserlen y cymeradwyo gofynnol, cytunwyd dirprwyo cymeradwyaeth y bwrdd ar gyfer yr AP i'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd cyn ei gyflwyno i'r tri ALI a'r BI ar gyfer cymeradwyaeth ffurfiol.** RS/AD

7.7 **Cytunwyd i gynnal Gweithdy Asesiad Poblogaeth hanner diwrnod ym mis Mawrth ar gyfer aelodau'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i ddarparu cyfle i adolygu'r themâu sy'n dod i'r amlwg o'r Asesiad Poblogaeth.** Swyddfa Rhaglen BGN

7.8 Cytunwyd bod hwn yn ddarn o waith gwych a diolchwyd i bawb a fu'n ymwneud â'r gwaith, CNPT yn enwedig, ar gyfer y rôl olygyddol a ddaeth â'r cyfan ynghyd.

Gadawodd SHay y cyfarfod.

## **8 Cyflwyniad ar y diweddaraf am Strategaeth Digidol BI PABM a WCCIS**

Ymunodd Stephen Magowan (SM), Sarah Caulkin (SC), Martin Morgans (MM), Matthew John (MJ) a Tracy Bell (TB) â'r cyfarfod

### **8.1 Strategaeth Digidol BI PABM**

Rhoddodd SM gyflwyniad ar Strategaeth Digidol ddrafft BI PABM a ddarparodd y cyd-destun strategol ar gyfer WCCIS o safbwynt BI. Mae'r Tîm Strategaeth Digidol wedi cael y dasg o ddatblygu Strategaeth Digidol ar gyfer y Bwrdd Iechyd.

8.1.2 Dyma nodweddion allweddol y drafft gweithiol:

- Caiff gweithgareddau iechyd, gofal a lles a gyflawnir gan bawb ym maes iechyd eu galluogi drwy ddefnyddio technoleg ddigidol lle bynnag y bo'n fanteisiol.
- Mae'r strategaeth digidol yn alluogwr iechyd a gofal; nid yw'n fudd iechyd na gofal i glaf neu ddinesydd; bwriedir ei gynnwys gyda strategaethau eraill i ysgogi portffolio o newidiadau tymor hir ar draws y sefydliad, â'r nod o gyflawni iechyd a gofal cytbwys, cadarnhaol a chynaliadwy.
- Mae'r strategaeth digidol, o'r egwyddorion cyntaf, yn mynd i'r afael â'r cytundeb a gafwyd yng nghyfarfod mis Tachwedd 2015 o'r Pwyllgor Cynllunio a Chomisiynu Strategaeth ynghylch y ffaith fod angen i lais y dinesydd fod yn gryf.
- Mae'n nodi'r angen am fuddsoddiad newid busnes pwrpasol a sylweddol yn y broses o newid seicolegol ac

ymddygiadol i wreiddio nodweddion sefydliad sydd wedi'i alluogi'n ddigidol yn niwylliant y Bwrdd Iechyd.

8.1.3 Nod y Strategaeth Digidol yw:

- Galluogi timau iechyd a gofal i dreulio mwy o amser ar eu galluoedd craidd
- Gwireddu buddion cynhyrchedd effeithlon buddsoddiadau technoleg ddigidol
- Rhoi'r economi iechyd mewn gwell sefyllfa i elwa o'r dechnoleg ddigidol i ddod, gan gyflawni'r economïau cost cyfredol

8.1.4 Bydd y camau nesaf yn cynnwys rhannu'r strategaeth â rhanddeiliaid; croesawu barn ac adborth; cynnwys safbwyntiau rhanddeiliad; datblygu cynlluniau cyflwyno cyflawnadwy; datblygu strategaeth i'r sefydliad a datblygu modd integredig o gyflwyno gofal iechyd

## 8.2 **Cyflwyniad ar y Diweddaraf am WCCIS**

Rhoddodd SC, MJ, MM a TB y diweddaraf i'r bwrdd.

8.2.1 Mae'r system wedi'i chaffael yn genedlaethol ac yn cefnogi trawsnewid Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol, Iechyd Cymunedol, Iechyd Meddwl a Therapi ar draws Cymru, gan ganiatáu ALI a Gwasanaethau Iechyd i rannu cofnodion gofal.

8.2.2 Mae llywodraethu cenedlaethol yn cael ei adolygu ar hyn o bryd, ond mae strwythur llywodraethu rhanbarthol cryf ar waith, ac mae strwythurau llywodraethu lleol yn cael eu datblygu. Cadarnhaodd SC fod y broses rhoi ar waith yn cael ei rheoli'n dda gyda'r fframwaith llywodraethu rhanbarthol, gyda chysylltiadau â lefelau cenedlaethol a lleol.

8.2.3 Mae Cynllun Busnes Rhanbarthol cadarn ar waith sy'n nodi ymagwedd gadarn o ran sut caiff WCCIS ei rhoi ar waith yn rhanbarthol.

8.2.4 Yr amserlen rhoi ar waith bresennol ar gyfer BI PABM a CBS CNPT yw Rhagfyr 2017 - Chwefror 2018. Fe'i rhoddwyd ar waith ym Mhen-y-bont ar Ogwr ym mis Ebrill 2016.

8.2.5 Dyma'r camau nesaf:

- Cwblhau achosion busnes ar gyfer Abertawe a BI PABM
- Datblygu cynlluniau gweithredu rhanbarthol a lleol
- Recriwtio tair swydd WCCIS:
  1. Rheolwr Gweithredu WCCIS
  2. Arbenigwr Cynnyrch WWCIS
  3. Rheolwr Newid Busnes WCCIS

Gosodwyd hysbysebion ar gyfer y swyddi uchod, wedi'u hariannu gan LIC, i weithio'n lleol ac yn rhanbarthol.

8.2.6 Cododd y bwrdd faterion ynghylch integreiddio strategaethau digidol sy'n eiddo i'r tri BGC a'r BPRh a holodd a fyddai'r buddion yn cynyddu costau. Nodwyd bod CBS Pen-y-bont ar Ogwr yn awyddus i roi'r system ar waith gyda BI PABM fel blaenoriaeth i gefnogi gofal cymunedol integredig. Nodwyd na chadwyd at yr amserlenni ar gyfer ei rhoi ar waith y genedlaethol gyda Phowys. Mynegwyd pryderon ynghylch faint o amser y bydd yn cymryd i BI PABM, DASA a CBS CNPT roi'r system ar waith, ond eto, pwysleisiwyd pwysigrwydd sicrhau

bod systemau ar waith ac yn addas at diben ynghyd â'r gwaith paratoi mawr sy'n angenrheidiol cyn ei rhoi ar waith.

Sicrhawyd y bwrdd fod pob sefydliad yn ymrwmo i hyn a bod yr amserlenni'n realistig o ystyried faint o waith sydd i'w wneud er mwyn sicrhau bod y system wedi'i hintegreiddio'n llawn.

Dywedwyd bod LIC wedi nodi'r buddsoddiad yn y dechnoleg ond roedd yr adnoddau i gyflwyno'r fath raglen hefyd yn sylweddol. Ceisiodd aelodau'r bwrdd sicrwydd ynghylch yr amserlenni mabwysiadu ac a fyddai eu sefydliadau partner yn gallu cyflwyno yn erbyn eu prif ymrwymiad.

8.2.7 Gofynnwyd a ellid rhoi ystyriaeth i roi'r rhaglen ar waith fesul gwasanaeth, yn hytrach na fesul sefydliad.

**Diweddariad i'r BPRh  
yn dilyn trafodaethau  
â'r cyflenwr a  
Gwasanaeth  
Gwybodeg GIG  
Cymru - bwrdd  
prosiect WCCIS**

8.2.8 Mynegwyd pryderon ynghylch cyfrinachedd, ond rhoddwyd sicrwydd y byddai WCCIS yn fwy diogel na'r system bresennol, a rhoddwyd esboniad am y lefelau diogelwch yn y system. Cydnabuwyd nad yw system rannu electronig yn ddi-risg, ond byddai'r risgiau'n cael eu lliniaru cymaint â phosib.

8.2.9 Cadarnhawyd bod data demograffig am bobl yn cael ei gadw'n genedlaethol ac y gall pob sefydliad ei weld. Caiff data demograffig ychwanegol ei gyrchu yn ôl yr hyn y mae 'angen ei wybod'. Y sefydliad unigol sy'n berchen ar wybodaeth gyfeirio, a chaiff ei rhannu yn ôl yr hyn y mae 'angen ei wybod'.

8.2.10 Codwyd rôl y trydydd sector a nodwyd bod gan y trydydd sector rôl bwysig i'w chwarae yn yr achos busnes rhanbarthol o ran mynediad i wybodaeth a nodir y sefydliadau hynny y bydd angen iddynt gyrchu a darparu gwybodaeth.

8.2.11 Pan gawsant eu holi ynghylch a fydd nodiadau papur cleifion yn cael eu disodli yn y pen draw gan nodiadau digidol, cadarnhawyd y bydd y strategaeth digidol yn galluogi hyn; Er oherwydd anferthedd y dasg, byddai hyn yn cael ei gyflawni fesul cam. Byddai'n dechrau gyda thagiâu digidol ar gyfer pob ffeil, ac yn dilyn hyn byddai nodiadau'n cael eu blaen-sganio, ac yna, dros amser, byddai system ffeilio electronig yn cael ei datblygu. Cadarnhawyd hefyd fod yn rhaid cadw ffeiliau papur cleifion am gyfnod amser penodedig a byddent felly'n cael eu cadw am yr amser penodol hwnnw.

## **9 Y Diweddaraaf am y Rhaglen Gwasanaethau Cymunedol, gan gynnwys y Strategaeth Comisiynu Cartrefi Gofal a Chynlluniau Gweithredu Lleol.**

Ymunodd Vicky Warner (VW) â'r cyfarfod

9.1 Rhoddodd VW gyflwyniad byr ar Adroddiad Diweddaraaf y Rhaglen Gwasanaethau Cymunedol a darparodd drosolwg o



- gynnydd.
- 9.1.1 Mae'r rhan fwyaf o elfennau'r model Gofal Canolradd Gorau Posib ar waith ac yn cael eu datblygu o hyd. Mae fframwaith cadarn ar waith.
- 9.1.2 Mae cam terfynol gwerthusiad Gofal Canolraddol Cordis Bright wedi cychwyn, a disgwylir yr adroddiad terfynol ym mis Mawrth 2017. Mae tri chwestiwn allweddol yn cael eu trafod - a yw Gofal Canolraddol wedi gweithio, a yw wedi ychwanegu gwerth am arian, a pha fath o effaith y mae Gofal Canolraddol wedi'i chael ar y system iechyd gofal cymdeithasol ehangach?
- 9.1.3 Ar hyn o bryd, mae'r holl bartneriaid statudol ym Mae'r Gorllewin wrthi'n ymwneud â'r Archwiliad Cenedlaethol ar gyfer Gofal Canolraddol yng Nghymru 2016 sy'n cael ei gynnal gan Wasanaeth Meincnodi'r GIG.
- 9.1.4 Mae'r ymagwedd cynllunio Gofal Rhagweledol yn cael ei chyflwyno ar hyn o bryd i bob rhwydwaith clwstwr yn y rhanbarth, ac mae dangosyddion perfformiad yn cael eu datblygu.
- 9.1.5 Mae Cynllun Datblygu Sefydliad rhanbarthol yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd, â'r nod o gael staff integredig yn gweithio i'r un gyfres o werthoedd a galluoedd ym mhob tîm. Mae cynnwys staff yn hanfodol a gwneir hyn ym mis Mawrth 2107.
- 9.1.6 Pwysleisiodd VW bwysigrwydd adnabod y galw am gartrefi gofal preswyl ac ansawdd y gofal sy'n angenrheidiol ar eu cyfer. Mae manylion llawn ar gael yn Atodiad 2 yr adroddiad hwn.
- 9.1.7 Gwnaed cais i ddarparu crynodeb o ddarpariaeth cartrefi gofal, dadansoddiad o wariant a'r ddarpariaeth nyrsio sydd ar gael yn y cyfarfod nesaf.
- 9.2 **Penderfyniad: cadarnhaodd y bwrdd ei fod wedi cymeradwyo fersiwn ôl -ymgyngghoriad Strategaeth Comisiynu Bae'r Gorllewin ar gyfer Cartrefi Gofal a Phobl Hŷn**

**VW/Bwrdd SC**

## **10 Adroddiad Cynnydd Rhaglen Bae'r Gorllewin gan gynnwys isadeiledd y rhaglen**

- 10.1 Adroddodd SH yn ôl am gynnydd
- 10.1.1 Ystyriwyd a chymeradwywyd yr adroddiad am isadeiledd Bae'r Gorllewin a gyflwynwyd i Dîm y Rhaglen a'r Grŵp Arweinyddiaeth. Wedi'i ariannu'n flaenorol drwy'r Grant Cyflawni Trawsnewid a grant gan y CGI, cytunwyd y byddai'r Grant Cymorth Refeniw ar y cyd ag arian y CGI yn ariannu swyddi rhaglen Bae'r Gorllewin am dair blynedd, gyda Dinas a Sir Abertawe'n awdurdod cynnal ar ran y bartneriaeth.
- 10.1.2 Ni fu'n bosib trefnu cyfarfod Panel y Dinasyddion rhanbarthol cyn i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol gwrdd. Bydd Panel y Dinasyddion yn cwrdd ar 17 Chwefror yn Eglwys y Glannau, Abertawe
- 10.1.2.a Cadarnhawyd bod y Grŵp Arweinyddiaeth wedi cytuno y caiff Panel Rhanbarthol y Dinasyddion ei ariannu drwy'r Grant

Cymorth Refeniw.

- 10.1.2.b Holwyd a oedd proses ymgynghori â dinasyddion a'u cynnwys wedi'i threfnu o ran plant a phobl ifanc; cadarnhawyd nad oedd y fath broses ar waith ar hyn o bryd ond mae BI PABM yn y broses o sefydlu Panel Plant/Pobl Ifanc ac felly, gall gysylltu ar draws yn yr un ffordd â'r Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid.

**Cytunwyd y dylai plant a phobl ifanc gael llais ac y dylai'r dull sy'n cael ei ddatblygu gan BI PABM gyfateb i Banel Rhanbarthol y Dinasyddion ar gyfer PPI.**

**JAD/BI PABM**

- 10.1.3 O'r opsiynau a nodwyd gan y Sefydliad Gofal Cyhoeddus ar gyfer yr Arfarniad o Opsiynau Datblygu'r Gweithlu, cytunodd Tîm Rhaglen a Grŵp Arweinyddiaeth Bae'r Gorllewin ar opsiwn 2: swyddogaeth datblygu'r gweithlu rhanbarthol, gan gynnwys cynllunio'r gweithlu a rheolaeth llinell unigol. Mae gan yr opsiwn hwn gyfeiriad teithio cryfach ar draws y rhanbarth. Mae'n adeiladu ar yr ymdrech gydweithredol ar draws yr holl bartneriaid ac yn cynnig y cyfle i sicrhau mwy o gost effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd ar draws y rhanbarth.

## **11 Adroddiad Monitro'r Gronfa Gofal Canolraddol ar gyfer y 3ydd Chwarter**

- 11.1 Cyflwynodd SH yr adroddiad a dosbarthwyd copi o Atodiad 4. Esboniodd SH er bod Atodiad 4 yn darparu llawer o ddata, roedd y fformat yn llai cymhleth nag a gyflwynwyd yn flaenorol.
- 11.2 Cyflwynwyd adroddiadau monitro'r 3ydd Chwarter gan Arweinwyr y Prosiect ar 11 Ionawr, a threfnwyd iddynt gael eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 29 Ionawr. Mae adroddiadau'n cael eu coladu ar hyn o bryd i greu adroddiad monitro cyffredinol ar gyfer y bwrdd a Llywodraeth Cymru sy'n crynhoi'r canlyniad a'r wybodaeth am wariant.
- 11.3 Mae'r Grŵp Arweinyddiaeth wedi cytuno y byddai'r broses o ailddyrranu unrhyw wahaniaethau ariannol ar sail pro-rata, ac y byddai unrhyw wahaniaethau sy'n weddill yn defnyddio'r fformiwla canran blaenorol yn seiliedig ar ddyraniadau A33 ar gyfer y CGI ar gyfer ALI a'r Bwrdd Iechyd. Rhaid bod trywydd archwilio clir ar gyfer unrhyw wariant.
- 11.3.1 Cadarnhaodd DW fod y Grŵp Arweinyddiaeth yn edrych ar brosiectau 'gwyrdd' a nodwyd, a bydd cyllid y prosiectau 'coch' yn cael ei ailddyrranu os na all y prosiect hwnnw wario'i arian o fewn y cyfnod amser. Rhoddir ychydig mwy o amser i brosiectau 'ambr' wario'r arian. Penderfynodd y Grŵp Arweinyddiaeth i fynd ar y trywydd hwn er mwyn lleihau'r risg o beidio ag ymrwmo cyllid.
- 11.4 Trafodwyd amserlenni dyraniad CGI Llywodraeth Cymru gan fod y meini prawf a'r amserlenni presennol yn llesteirio'r ffordd y caiff cyllid ei wario. Cadarnhawyd bod y neges hon yn cael ei chyfleu'n aml i Lywodraeth Cymru a bydd hyn yn parhau i ddigwydd nes bod y broses arian grant yn cael ei gwella. Nodwyd bod arwyddion wedi'u rhoi y byddai cyllid yn cael ei roi dro ar ôl tro yn y dyfodol.
- 11.5 Teimlwyd y dylai'r rhanbarth ymrwmo'n fwy hyderus o ran recriwtio gan fod Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau ar lafar y

bydd y cyllid yn parhau ar gyfer y tair blynedd nesaf. Ar y sail hon, teimlwyd y dylid datblygu'r timau ar gyfer ymrwymiad tymor canolig. Cytunwyd y dylid rhoi mwy o hyblygrwydd o ran cario cyllid ymlaen.

Nodwyd hefyd y dylem fod yn ystyriol o risgiau wrth ystyried contractau tymor canolig.

11.6 **Cytunwyd i gymeradwyo'r ffurflen fonitro ar gyfer y trydydd chwarter cyn ei chyflwyno i Lywodraeth Cymru** **Swyddfa Rhaglen BGN**

## 12 **Unrhyw Fater Arall**

12.1 Cododd LJ bryderon ynghylch ystafelloedd aros mewn ysbytai o ran plant ac oedolion â phroblemau iechyd meddwl yn dilyn digwyddiad yn Ysbyty Treforys lle gofynnwyd am ardal dawel ond nid oedd staff yn gallu darparu ardal addas.

Gofynnodd JAD am fwy o fanylion wedi i'r cyfarfod ddod i ben er mwyn ymchwilio i'r digwyddiad hwn. Sicrhawyd LJ gan JAD fod ardaloedd tawel ar gael yn Ysbyty Treforys.

12.2 Hysbysodd SH y bwrdd fod yr Adroddiad Gwerthuso Cydlynu Ardaloedd Lleol wedi'i gwblhau ac yn barod i'w ddsbarthu. Gofynnodd SH am ganiatâd i ddsbarthu'r adroddiadau cyn ei gyflwyno i'r bwrdd ym mis Mawrth gan fod pwysau'n cael ei roi ar Fae'r Gorllewin i'w rhyddhau.

**Cytunwyd y gellir dosbarthu'r Adroddiadau Gwerthuso CALI cyn eu cyflwyno i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ym mis Mawrth**

**Swyddfa Rhaglen BGN**

## Dyddiad y cyfarfod nesaf

23 Mawrth, 2017

10.00 – 12.00

Y Ganolfan, Baglan

*Daeth y cyfarfod i ben am 12.45pm*